

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO DYDD IAU, 9 CHWEFROR 2023

### Presenoldeb:

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Jina Gwyrfai, Medwyn Hughes, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Rob Triggs ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg:** Sharon Warnes (Cadeirydd), Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock a Rhys Parry

### Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees-Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio), Eva Chan Williams (Arweinydd Archwilio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 5 a 6: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Dewi Wyn Jones (Arweinydd Cefnogaeth Gweithredol), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd)

Yvonne Thomas, Alan Hughes (Archwilio Cymru)

Eitem 7: Arweinydd y Cyngor - Cyng. Dyfrig Siencyn, Prif Weithredwr - Dafydd Gibbard, Ffion Mai Jones (Arweinydd Cefnogaeth Gweithredol)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carys Edwards (Aelod Lleyg)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Mynegodd y Cyng. Paul Rowlinson fuddiant yn eitem 11 Cynnyrch Archwilio Mewnol - Atodiad 10 - Cynllun Ffoaduriaid Wcráin oherwydd ei fod yn cynnig llety i ffoadur o Wcráin. Nododd y Swyddog Monitro nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly ni fu rhaid i'r Cynghorydd adael y cyfarfod.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR

- a) Yn unol â chais a wnaed gan y Pwyllgor yng nghyfarfod 08/09/22 cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r

Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

- b) Diolchwyd am yr adroddiad
- c) Yng nghyd-destun Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasaneth 2021/22, a'r awgrym i'r Cadeirydd ail ymweld a chyfrifoldebau'r Pwyllgor o roi trosolwg ar 'holl adrannau'r Cyngor (gan ystyried bod y Gwasanethau Gofal ac Addysg gyda threfn statudol eu hunain), nododd y Cadeirydd mai cyfrifoldeb Llywodraethwyr yw adolygu cwynion ysgolion, ond bod trefn cwynion y Gwasaneth Addysg yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor. Ateggodd y byddai adroddiad cwynion y Gwasanethau Plant ac Oedolion, lechyd a Llesiant yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal.

Mewn ymateb, amlygodd y Pennaeth Cyllid bod rôl statudol i'r Pwyllgor adolygu'r drefn y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i ymdopi a chwynion, a bod angen sicrwydd gan y Pwyllgor bod y drefn yn effeithiol a hynny'n cael ei nodi yn yr adroddiad cwynion.

Cynigwyd ac eiliwyd derbyn yr adroddiad

#### **PENDERFYNWYD:**

##### **Derbyn yr adroddiad**

##### **Nodyn:**

- **Angen trafod rôl statudol y Pwyllgor yng nghyd-destun trefn gwynion y Cyngor**

## **5. DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU**

- a) Cyflwynwyd dau adroddiad ynghyd ag ymatebion y Cyngor i ddiweddarau'r Pwyllgor ar gyhoeddiadau diweddar gan Archwilio Cymru:

- Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021  
Ymateb y Cyngor i'r Ddeddf
- Diweddaraid ar Gynnydd Datgarboneiddio  
Ymateb y Cyngor i ddatgarboneiddio

Croesawyd Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Dewi Wyn Jones (Arweinydd Cefnogaeth Gweithredol) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) i'r cyfarfod i gyflwyno eu sylwadau / ymatebion.

Yng nghyd-destun ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nodwyd bod Archwilio Cymru yn edrych ar y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i'r Ddeddf. Cyflwynwyd asesiad o'r ymateb i'r pum maes gwaith. Trafodwyd y meysydd gwaith yn unigol ac ymhelaethwyd ar yr hyn oedd wedi ei weithredu i sicrhau rheolaeth a chynnydd.

Yng nghyd-destun adroddiad cynnydd Datgarboneiddio, nodwyd bod gan y

Cyngor weledigaeth glir, ond bod angen adnabod mesurau yn fuan i fesur camau datgarboneiddio i dystiolaethu cynnydd yn y gwaith - cyfeiriwyd at ddau argymhelliad a gynigiwyd yn dilyn yr archwiliad.

Ategodd Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod camau mewn lle i gwrdd â gofynion yr adolygiad. Nododd bod y Cyngor yn mesur data yn flynyddol gyda'r data yn cael ei ddefnyddio i fesur effaith nifer o'r cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd

Diolchwyd am yr adroddiadau

Mewn ymateb i gwestwin ynglŷn a GwyrddNi (mudiad sy'n gweithredu ar newid hinsawdd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned), cadarnhawyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda GwyrddNi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chydweithio gyda phrosiectau cyfalaf, megis traphont Abermaw ac ystyried cyfleoedd posib i gynnwys datgarboneiddio yn y prosiectau hynny, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar bolisiâu mewnol ac i sicrhau bod datgarboneiddio a materion hinsawdd yn cael eu hymgorffori fel materion elfennol wrth ddatblygu prosiectau. Ategodd Swyddog Archwilio Cymru y bydd datgarboneiddio yn rhan allweddol mewn derbyn ceisiadau grant i'r dyfodol.

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
- **Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddarau'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff**
- **Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio'**

## **6. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL**

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem yn un i'w ystyried fel rôl llywodraethu ac nid fel rôl craffu gyda chais i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod trefniadau priodol yn ei lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o archwiliadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

Nodwyd bod y gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o gynigion gwella yn waith parhaus a bod y Grŵp Llywodraethu sydd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr yn rhoi sylw i'r cynigion gwella ac i'r cynnydd o'r argymhellion. Ategwyd, i'r cynigion hynny sydd yn derbyn casgliad yn nodi 'wedi ei gwblhau', ni fydd yn derbyn sylw pellach gan y Pwyllgor; Bydd diweddaraid a y rhai hynny sydd derbyn 'ar waith' yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen 6 mis.

Yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mehefin 2022, nodwyd bod y fformat wedi ei addasu ynghyd a'r allwedd oedd bellach yn cynnwys tri phennawd - gwaith paratoadol / ar waith / wedi ei gwblhau. Nodwyd bod

cyfeiriad at amserlen y gwaith hefyd wedi ei gynnwys.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhaglen weithredu glir ar gyfer y cynlluniau, nodwyd bod pob cynllun gydag argymhellion clir a chynllun gweithredu manwl. Ategwyd, er mai cynllun gweithredu bras sydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bod adroddiadau llawn a manwl yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol gyda'r Pwyllgor Llywodraethu yn derbyn ymateb i sylwadau'r Pwyllgorau Craffu.

Mewn ymateb i sylw bod 'Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Gofal yn y Cartref' 'wedi ei gwblhau' ac os oedd y meini prawf wedi eu cyfarch a'r mater wedi ei graffu, nodwyd bod y Gwasanaeth dan sylw wedi derbyn archwiliad diweddar gan yr Arolygaeth Gofal ac y byddai ymateb yn cael ei baratoi erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Mewn ymateb i sylw dilynol ynglŷn â'r ymadrodd 'wedi ei gwblhau' a'r angen am eglurhad cryno efallai yn egluro'r sefyllfa yn llawn, amlygwyd bod 'wedi ei gwblhau' yn golygu mwy nag un peth yn yr allwedd a derbyniwyd yr angen i amlygu pa un sydd yn berthnasol i'r adroddiad.

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o adroddiadau archwilio yn cael eu gwireddu**

Nodyn:

- **Bod 'wedi ei gwblhau' yn golygu un o ddau beth yn yr 'allwedd i'r casgliadau' – angen amlygu pa un sydd yn berthnasol i gasgliadau'r cynigion / argymhellion hynny sydd 'wedi ei gwblhau'.**

## 7. ARBEDION 2023/24

- a) Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Dyfrig Siencyn Arweinydd y Cyngor, yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod 14-02-23. Adroddwyd nad rôl y Pwyllgor oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Wrth gyflwyno cefndir i'r gwaith, nodwyd, er bod setliad gwell na'r hyn a ragwelwyd wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, bod y swm yn annigonol i gyfarch costau a bod bwlch ariannol o £12.4m i gyrraedd cyllideb hafal.

I ganfod arbedion, cyflwynwyd 320 o gynigion gan Adrannau'r Cyngor (gwerth oddeutu £23m). Aseswyd pob cynnig gan y Prif Weithredwr neu gan un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac fe'u gosodwyd mewn pedwar categori i gynorthwyo'r Aelodau i flaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynnig unigol.

Ategwyd bod asesiad cyfreithiol ac asesiad ariannol lefel uchel wedi ei

gwblhau ar bob cynllun unigol i sicrhau bod modd eu cyflawni. Wrth gyflwyno eu cynigion, roedd yr Adrannau wedi cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynol i ystyriaethau cydraddoldeb.

Dros gyfnod o dri diwrnod bu i bob Pennaeth Adran gyflwyno eu cynigion i weithdai o Aelodau Cabinet, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu ynghyd ag Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol y Cyngor. Drwy gydol y broses, y prif nod oedd ceisio darganfod cynigion fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar drigolion Gwynedd pe byddent yn cael eu gweithredu. Canlyniad y broses oes adnabod oddeutu £6.4m o arbedion effeithlonrwydd y gellid eu gweithredu.

O ystyried bod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannol o £12.4m dros y ddwy flynedd nesaf, adroddwyd na fyddai'r wedd gyntaf o arbedion (£6.4m) yn ddigonol i'w gyfarch, ac mai'r bwriad oedd ail ymweld â gweddill y cynigion a gyflwynwyd gan yr adrannau dros y misoedd nesaf. Ar sail rhagdybiaethau ariannol presennol, bydd angen canfod cyfanswm o rhwng £8m ac £8.6m tuag at y bwlch ariannol o £12.4m - bydd angen darganfod rhwng £1.6m a £2.2m o arbedion ychwanegol cyn gosod cyllideb 2024/25. Rhagwelir y byddai hyn yn gwthio'r Cyngor i diriogaeth toriadau yn hytrach nac arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad, a nodwyd yr angen am fwy o gymorth gan y Pwyllgorau Craffu unigol i wynebu'r her yma.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dygymod o ystyried bod ganddynt orwariant a llithriad mewn cynlluniau arbedion presennol, nodwyd bod rhai o'r cynlluniau bellach yn hanesyddol a bod angen cynlluniau a syniadau newydd. Ategwyd bod amgylchiadau presennol yn wahanol iawn i sefyllfa 2015 ac felly angen ystyried y sefyllfa yn realistig. Nodwyd bod swm ar gyfer methiant i gyflawni wedi ei glustnodi.

Mewn ymateb i gwestiwn bod cynlluniau sylweddol o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant wedi bod mewn bodolaeth ers tro ac os mai dyhead yw'r cynigion gerbron (sydd angen eu cwblhau mewn dwy flynedd!), nodwyd bod y cynigion yn fwy na dyhead, ond nad oedd cynlluniau pendant ar hyn o bryd gan and oedd achosion busnes wedi eu llunio ar gyfer pob cynllun. O ganlyniad, bu rhaid cynnwys ffigwr risg. (Ategwyd, bod y 'Cynllun Lleoliadau Plant' yn symud yn ei flaen gydag achos busnes wedi ei gwblhau a grant wedi ei adnabod).

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phontio'r diffyg i gwblhau cynnig / cynllun, a'r honiad y gall hyn leihau'r ymdrech o gwblhau o fewn y gyllideb, derbyniwyd bod rhai cynlluniau yn fwy cymhleth nag eraill a bod angen amlygu hyn i'r Cabinet

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gofyn i'r holl Adrannau gynnig arbedion o 20% ac nad oedd hyn wedi ei wireddu, nodwyd nad oedd Ysgolion a rhai Cynlluniau Corfforaethol wedi gorfod cynnig 20% oherwydd eu bod o dan reolaeth uniongyrchol.

Mewn ymateb i sylw bod angen sicrhau na fyddai'r cynlluniau yn cael effaith niweidiol ar waith i'r dyfodol, nodwyd, yn sicr, nad oedd y cynigion wedi eu hystyried fel mesurau dros dro

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â rhoi ystyriaeth i allyriadau carbon a'r angen i gyrraedd sero net erbyn 2050, nodwyd bod rhai o'r arbedion refeniw yn gynlluniau hinsawdd e.e. £3m o baneli solar ar 80 o safleoedd y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod y broses wedi bod yn drylwyr
- Bod y gwaith wedi ei gwblhau yn drefnus - pob Adran wedi cael cyfle i gyfrannu a'r arweiniad wedi bod yn broffesiynol iawn
- Da gweld bod dwy flynedd yn cael eu hystyried a chroesawu arbedion ac nid toriadau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r broses o godi incwm, nodwyd bod nifer o ffactorau wedi eu hystyried ac nad oedd modd gosod yr un canran i bob Adran gan fod rhai gwasanaethau yn cystadlu gyda'r sector breifat. Ategwyd mai'r bwriad, mewn rhai adrannau, megis YGC, yw ymestyn unedau o waith i greu incwm. Ategwyd bod adolygiad incwm blynyddol yn cael ei weithredu fel rhan o osod y gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a'r gronfa £1.6m ar gyfer risg ac os mai arferiad cyfrifo arferol yw cyrraedd y swm yma ynteu resymeg arall, nodwyd mai cyfuniad o'r hyn sydd yn cael ei dderbyn ym maes cyfrifo, rheoli prosiect ac arferiad oedd wedi ei ystyried. Ategwyd bod y swm yn uwch na'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, ond bod hyn yn gyfuniad o ymarfer da a phrofiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag asesiadau cydraddoldeb effaith a'r ystyriaeth y byddai arbedion a thoriadau yn cael effaith anwastad ar draws y Sir, nodwyd nad oedd unrhyw gynllun yn cynnig newid penodol i un rhan o'r Sir. Ategwyd nad oedd bwriad cynnig gwasanaethau gwahanol i rannu o'r Sir, ond rhagrybuddiwyd posibilrwydd o hyn yn yr ail wedd. Mewn sylw atodol, awgrymwyd bod angen cynnwys hyn ar y ffurflen asesiad effaith.

Cymerodd yr Arweinydd y cyfle i ddiolch am y sylwadau gwerthfawr a gyflwynwyd. Ategodd bod y broses wedi bod yn fuddiol ac y dylid efallai ystyried fel proses flynyddol. Nododd y byddai unrhyw doriad yn debygol o gael effaith ar drigolion y Sir ond na fyddai'r wedd gyntaf yn cynnig toriadau i wasanaethau nac ar ddarpariaethau. Y prif nod yw ceisio cyllideb hafal gyda'r effaith lleiaf posib ar drigolion Gwynedd.

## **PENDERFYNWYD**

- **Bod y broses o adnabod yr arbedion wedi bod yn heriol**
- **Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion**
- **Bod yr arbedion a gynigiwyd yn rhesymol a chyraeddadwy**
- **Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir**
- **Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Arbedion 2023/24 yn eu cyfarfod 14/2/23**

**Nodyn:**

- **Bod angen amlygu'r risg o beidio cyflawni cynlluniau yn well**

**Bod angen amlygu na fydd effaith yr arbedion yn cael effaith anwastad ar draws y Sir**

## 8. CYLLIDEB 2023/24

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant drafft o 7.0%, sy'n cyfateb i werth £14.6m mewn ariannu allanol (cyfartaledd ledled Cymru yn 7.9%) ar gyfer 2023/24 sy'n welliant sylweddol ar y setliad dangosol a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2022. Er derbyn setliad rhesymol eleni, adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2023/24 gyda'r angen i gynyddu gwariant o £27.8m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau. Yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant uwch nag y bu ers sawl blwyddyn, bod cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus sy'n deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2023/24.

Amlygwyd mai rôl y Pwyllgor oedd craffu'r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i gyflwyno'r wybodaeth i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru.

Amlygodd, y ceisir penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod 14/02/23 i argymhell i'r Cyngor Llawn (2/03/23) sefydlu cyllideb o £317,880,310 ar gyfer 2023/24 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £227,842,930 a £90,037,380 o incwm o'r Dreth Cyngor (gyda chynnydd o 4.95% ar dreth anheddau unigol) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £67,780,150 yn 2023/24.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb ac amlygwyd y meysydd hynny;

- Chwyddiant Cyflogau o £14.2m - y gyllideb yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2023/24 o 4% ar gyfer yr holl weithlu, a hynny ar ôl ychwanegiad i adlewyrchu'r sefyllfa fod cytundeb tâl terfynol 2022/23 wedi bod yn uwch na'r hyn oedd wedi ei gyllido amdano
- Chwyddiant Arall o £11.1m - swm sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau ar raddfa chwyddiant meysydd penodol (Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol, Gofal Dibreswyl, Ynni, Tanwydd, Cynnydd prisiau eraill).
- Ardollau i gyrff perthnasol yn cynyddu
- Demograffi - lleihad net mewn nifer disgyblion a chynnydd mewn plant yn derbyn gofal
- Pwysau ar Wasanaethau o £5.75m - argymhell cymeradwyo bidiau gwerth £2.75m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau. Yn ychwanegol i'r bidiau parhaol, argymhellwyd cymeradwyo ychwanegiad i'r gyllideb Digartrefedd o £3m sydd yn cael ei ariannu o'r Premiwm Treth Cyngor, yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr 2022. Nodwyd bod y bidiau a gyflwynwyd wedi eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymhell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

Cyfeiriwyd at ystyriaethau eraill lle nodwyd effaith cynnydd mewn derbyniadau llog mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau â llif arian y Cyngor ynghyd a lleihad mewn cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn sgil yr

ailbrisiad teirblynyddol. Amlygwyd hefyd byddai defnyddio dull mwy darbodus i glirio dyled Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn llai o flynyddoedd hefyd yn cynnig arbediad o £2.4m - daw hyn yn sgil adolygu'r polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR).

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16. Amlygwyd bod arbedion gwerth £950,250 oedd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2023/24 wedi llithro o ganlyniad i effaith sylweddol covid-19. Bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni yn ystod 2023/24 gyda'r cyrhaeddiad yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Yn dilyn derbyn gwybodaeth am y setliad gan Lywodraeth Cymru, adnabuwyd bwlch ariannol o £12.4m dros ddwy flynedd, gyda £6.4 o arbedion eisoes wedi eu hadnabod ar gyfer 2023/24. Y bwriad yw comisiynu gwaith pellach i sefydlu'r ail wedd o arbedion a thoriadau (oddeutu £1.6m - £2.2m ) cyn gosod cyllideb 2024/25.

Roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod y gyllideb y ar gyfer 2023/24 yn un gadarn, digonol a chyrrhaeddawy.

b) Diolchwyd am yr adroddiad

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Cytuno gyda'r farn o beidio defnyddio balansau
- Bod angen rhagweld y cynnig diweddar i gynyddu cyflogau athrawon
- Bod angen pwysu ar y Llywodraeth i roi grant i alluogi newid
- Bod yr adroddiad yn cynnig manylion digonol a chadarn
- Bod ariannu bidiau newydd i'w groesawu
- Bod y gostyngiad mewn cyfraniadau pensiwn i'w groesawu ynghyd â llog ychwanegol ar falansau
- Mai anodd fydd canfod 'one offs' ar gyfer 2024/25
- Diolch i Arlingclose eto eleni am gyflwyniad da (ar 3<sup>ydd</sup> Chwefror)

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd Cyngor Gwynedd fel rhai Cyngorau eraill yn defnyddio balansau, nodwyd, er bod gan Cyngor Gwynedd falansau iach, bod y mwyafrif wedi ei glustnodi ar gyfer cynlluniau i wireddu Cynllun y Cyngor ac i ymdopi gyda gwariant angenrheidiol e.e cynnydd mewn chwyddiant. Ategwyd, os daw yn arferiad i ddefnyddio balansau, buan iawn y bydd sefyllfa o ansefydlogrwydd.

Mewn ymateb i gwestiwn am yr arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), nodwyd bod sefydlu CBC wedi 'ei roi' ar yr Awdurdodau Lleol ac felly bydd rhaid ymdopi gyda'r sefyllfa. Fel y bydd trefniadau yn datblygu, nodwyd efallai bydd rhai swyddogaethau yn gostwng mewn ymateb i gyfleoedd a sefyllfaoedd posib. Ategwyd mai Cyngor Gwynedd sy'n darparu gwasanaethau Cyllid a Chefnogol ar gyfer y CBC a bod swyddogion yn annog a darbwylllo cadw costau i lawr wrth sefydlu trefn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnyddio arian premiwm rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor i gau'r bwlch ariannol ym maes digartrefedd yn hytrach na defnyddio reserfau o ystyried mai bwriad arian y premiwm oedd i weithredu Cynllun Tai'r Cyngor a chadw pobl leol yn eu cymunedau, nodwyd mai UN waith y bydd disgwyl defnyddi'r gronfa sydd eisoes wedi ei gasglu o arian y premiwm yn cael er mwyn ymdrin â



gorwariant yn y maes digartrefedd, ac na fydd hyn yn cael effaith ar weithredu'r Cynllun Tai. Ategwyd fod trafodaethau yn digwydd gyda'r Adran Tai ac Eiddo er mwyn gostwng y gorwariant a ragwelir yn 2022/23. Ategwyd, yn sicr, na fydd arian y premiwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw faes arall ac na fydd defnydd cyffredinol iddo. O 2023/24 ymlaen, tan fydd newid yn y polisi Premiwm, bydd swm penodol wedi ei glustnodi o'r Premiwm er mwyn ymdrin â chostau cynyddol digartrefedd.

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr opsiynau i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2023/24 yn eu cyfarfod 14/2/23**

## **9. STRATEGAETH GYFALAF 2023/24 (YN CYNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)**

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a rheolaeth trysorlys y Cyngor. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi derbyn cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose a oedd yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr.

Cyfeiriwyd at y gweithgareddau cyfalaf a thynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £67.8miliwn yn 23/24 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr adroddiad ynghyd a'r ffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r adnoddau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau ein hunain yw'r cronfeydd. Daw gweddill o'r arian trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau referniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £177.8 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 23/24, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y cyngor aros oddi tano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthyca, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol; bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Amlygwyd bod Arlingclose wedi amlygu yr angen i adrodd ar y Meincnod Ymrwymadau yn chwarterol o hyn ymlaen. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd ar 2024 oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau. Ategwyd y byddai'r sefyllfa yn cael ei fonitro yn barhaus gyda diweddariadau cyson yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

Yng nghyd-destun Strategaeth Buddsoddi, nodwyd mai polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod symiau yn cael eu cadw i sicrhau hylifedd parhaus - ystyriwyd bod cadw hylifedd a diogelwch yn flaenoriaeth ar hyn o bryd mewn cyfnod o doriadau a chwyddiant.

Cyfeiriwyd at y rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion ac mai Arlingclose fydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor am y blynyddoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar y 2il o Fawrth 2023**

**10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23**

- a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarar'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliodd ar bob archwiliad. Amlygwyd bod 59%%, allan o'r 46 archwiliad unigol sydd yn y cynllun, bod 27 wedi ei ryddhau yn derfynol neu wedi cau.

**Diolchwyd am yr adroddiad**

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2022/23**

**11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

- a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarar'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Mai 2022 hyd 25 Ionawr 2023. Amlygwyd bod 24 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel; digonol neu gyfyngedig.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro.

- b) Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

**Archwiliad Diogelwch Tacsï**

- Pryder na welwyd tystiolaeth ddisgwyliedig wrth brosesu ceisiadau trwydded tacsï (dogfennau cofrestru, tystysgrifau MOT a dogfennau yswiriant ar goll)
- Angen sicrhau bod gan yr Adran Trwyddedu gamau gweithredu dilys i ymateb i'r pryderon ac i osgoi dilyniant o gamgymeriadau yn 2023/24

Mewn ymateb, nodwyd mai prinder staff oedd un o'r rhesymau dros lithriad yn safon y gwaith a bod staff ar secondiadau i'r Adran yn ddibrofiad. Ategwyd bod pob ymdrech wedi ei wneud i wella'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn os yw'r trefniadau yn berthnasol i dacsï dwr a fferi, nodwyd bod modd cynnwys hyn yng nghynllun 2023/34

## **Archwiliad Dyletswyddau Economaidd Cymdeithasol 2021**

Mewn ymateb i gwestiwn lle heriwyd os mai 'digonol' yw casgliad cywir yr archwiliad o ystyried bod angen i asesiadau effaith gael eu cefnogi gan ddata er mwyn cyfiawnhau'r datganiadau, nodwyd mai un rhan o ffurflen asesiad terfynol oedd dan sylw yma yn ymateb i'r dyletswydd o annog gwell prosesau o wneud penderfyniadau strategol ac i'r Awdurdod ystyried anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd. Mewn ymateb i gwestiwn ategol os yw casglu barn a phrofiadau yn cael eu hystyried fesul grŵp neu ardal, nodwyd bod barn yn cael ei gasglu fesul unigolyn neu grŵp ond bod gwybodaeth ddaearyddol ar gael i'w ystyried. Ategwyd bod gofynion am brofiadau i weld yn goroesi'r angen am ddata erbyn hyn.

### **Archwiliad Cartrefi Gofal Plas Gwilym, Hafod Mawddach a Bryn Blodau**

- Pryder bod patrwm i'r pryderon yn y Cartrefi Gofal
- A oes ystyriaeth i gwynion perthnasol i'r gwasanaeth yma wedi eu hystyried? Er bod archwiliad cwynion corfforaethol wedi ei gwblhau a oes modd adeiladu'r darganfyddiadau i'r Archwiliad? Awgrym i edrych ar ddigwyddiadau penodol, cwynion, materion yn codi fel rhan o'r fethodoleg i'r dyfodol - bod modd defnyddio ffynonellau eraill o wybodaeth megis adroddiadau'r Ombwdsman.
- Bod canfyddiad yr archwiliad yn rhy ffafriol o ystyried patrwm hanesyddol i'r camau rheoli
- Bod diwylliant yn y maes, nad yw'n gyfyngedig i'r tri cartref dan sylw, o dorri corneli ac anwybyddu gweithdrefnau - angen gweithredu a chyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu Gofal

c) Diolchwyd am yr adroddiad

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**
- **Cais am ddiweddariad o Archwiliad Diogelwch Tacsis (lefel sicrwydd cyfyngedig)**
- **Bod angen cyfeirio'r mater o ddiffyg gweithredu gweithdrefnau rheolaethol mewn Cartrefi Gofal i'r Pwyllgor Craffu Gofal**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 1.30 y.h.

---

**CADEIRYDD**